

Gwerth gwasanaethau cynggori i iechyd pobl a'r economi ehangach

Papur Trafod



Adam Jones, Uwch Swyddog Polisi
Medi 2020



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

1 Cyflwyniad

Mae ymarferwyr iechyd cyhoeddus yn gyfarwydd iawn â'r ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd. Maent yn deall ac yn ymateb i'r effaith y caiff polisiau, prosiectau, rhaglenni a dewisiadau cymdeithasol ehangach ar iechyd unigolion ac iechyd y boblogaeth. Un o'r ffactorau pennaf sy'n dylanwadu ar iechyd pobl yw'r economi, ac – i'r gwrthwyneb - iechyd ei dinasyddion yw un o'r ffactorau pennaf sy'n dylanwadu ar ba mor gryf yw economi gwlad. Mae'r adroddiad byr hwn yn rhan o gyfres o bapurau trafod sy'n edrych ar wahanol agweddau ar yr economi a chymdeithas, gan ystyried sut y mae iechyd yn effeithio ar nifer o feysydd a'r gwersi o waith ymchwil ac ymarfer o ran sut y gellid gwella iechyd pobl a'r economi drwy bolisiau cyhoeddus sy'n berthnasol i'r maes dan sylw. Mae'r papurau trafod yn ystyried tystiolaeth o'r wlad hon a thystiolaeth ryngwladol, gan gyflwyno diffiniadau, ffeithiau ac arsylwadau allweddol i'r darlennydd.

Mae'r papur hwn yn edrych ar werth gwasanaethau cynghori, gan holi sut y maent yn helpu pobl yn ariannol ac yn gwella'u hiechyd a'u llesiant.

Ymwadiad: Dechreuodd y gwaith cyn i bandemig COVID-19 ddod i'r amlwg, ac o'r herwydd, mae'n bosibl na fydd yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Serch hynny, gall y gwaith hwn helpu i lywio'r ymateb i COVID-19, ac o'r herwydd fe'i cyhoeddir gyda hynny mewn golwg.

2 Diffiniadau

Beth rydym yn ei olygu wrth sôn am 'yr economi'?

Mae'r gair 'Economi' yn tarddu o'r gair Groeg 'oikonomia', sy'n golygu 'rheolaeth ddomestig'. Dyma ddiffiniad geiriadur Saesneg Collins o'r gair 'economy':

'the complex of human activities concerned with the production, distribution, and consumption of goods and services'

yn ogystal â:

'the management of the resources, finances, income, and expenditure of a community, business enterprise, etc' (Collins English Dictionary 2018)

Beth rydym ni'n ei olygu wrth sôn am 'iechyd'?

I lawer o bobl, y pwynt bwled cyntaf yng Nghyfansoddiad Sefydliad Iechyd y Byd (Sefydliad Iechyd y Byd [dim dyddiad]) yw'r diffiniad gorau sy'n bodoli o iechyd:

Health is a state of complete physical, mental and social well-being and not merely the absence of disease or infirmity.

Fodd bynnag, mae ail bwynt bwled y Cyfansoddiad yr un mor bwysig:

*The enjoyment of the highest attainable standard of health is one of the fundamental rights of every human being without distinction of race, religion, political belief, **economic** [author's emphasis] or social condition.*

Mae'r ail egwyddor hon yn amlygu rhywbeth pwysig, sef cydnabod na ddylai amgylchiadau economaidd neu gymdeithasol unigolyn effeithio ar ei hawl i gael yr iechyd gorau posibl.

Beth rydym yn ei olygu wrth sôn am 'wasanaethau cynghori'?

Mae gwasanaethau cynghori'n rhoi cyngor i unigolion am bynciau o bob math, gan gynnwys eu sefyllfa ariannol, eu tai a'u cartrefi, eu gwaith, a'u statws preswyllo, ymhlith nifer o bethau eraill. Mae gwasanaethau cynghori i'w cael ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol, a hyd yn oed islaw lefel awdurdodau lleol.

Mae AdviceUK, elusen gofrestredig sy'n cefnogi gwasanaethau cynghori annibynnol y DU, yn rhestru'r pynciau y bydd eu haelodau ac asiantaethau cynghori eraill yn rhoi cyngor yn eu cylch. Yn eu plith mae:

- Delio â dyledion
- Cynyddu incwm
- Budd-daliadau lles
- Hawliau tai
- Hawliau cyflogaeth
- Problemau defnyddwyr
- Mewnfudo a Lloches
- Cwyno ac apelio
- Hawliau teuluoedd a phlant
- Hawliau anabledd
- Problemau sy'n deillio o gyflyrau iechyd penodol
- Problemau gofal cymdeithasol

Diffiniad

Cyngor - Helpu pobl i ddeall a defnyddio'u hopsiynau a'u hawliau cyfreithiol drwy ddarparu gwasanaeth annibynnol, cyfrinachol a hygyrch sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor ac/neu gynrychiolaeth i bobl

(AdviceUK 2018)

At ddiben y papur hwn, 'gwasanaethau cynghori' yw rhai sy'n cefnogi pobl mewn ystod o feysydd cymdeithasol y tu hwnt i'r maes iechyd. Gan hynny, nid yw cyrff fel GIG 111

Cymru, sy'n rhoi cyngor ar faterion gofal iechyd yn unig, wedi'u cynnwys. Ymhlith yr enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys y mae Cyngor ar Bopeth, y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, a'r Money Advice Trust, ynghyd â sefydliadau sy'n cynnwys gwasanaethau cynghori fel rhan o'u gwaith, fel Shelter, y Lleng Brydeinig Frenhinol ac Age UK.

3 Y Dystiolaeth

3.1 Beth yw effaith gwasanaethau cynghori ar iechyd pobl?

Mae Cyngor ar Bopeth yn rhoi data dienw am dueddiadau a welir yn y problemau y bydd pobl yn gofyn am gyngor yn eu cylch, naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy sgysiau ar y we. Mae'r data hyn am dueddiadau'n cael eu diweddarau'n fisol, ac maent yn edrych ar y deuddeng mis diwethaf er mwyn monitro unrhyw newidiadau yn natur ymholiadau.

Yn y cyfnod adrodd 12-mis diwethaf, hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2019, cafwyd ymholiadau¹ ynghylch 'iechyd a gofal cymunedol' yng Nghymru gan 2,824 o gleientiaid. Gan edrych ar iechyd o safbwynt ffactorau dylanwadol eraill, cafwyd nifer sylweddol uwch o ymholiadau ynghylch tai (12,933 o gleientiaid), cyflogaeth (13,466) a pherthnasau a'r teulu (9,392). Nid yw'n syndod mai ffactorau economaidd oedd sail y nifer mwyaf o ymholiadau, Y categorïau mwyaf o ran ymweliadau gan gleientiaid yn hyn o beth oedd budd-daliadau a chredydau treth (92,773), Credyd Cynhwysol (42,965) a dyledion (68,032) (Cyngor ar Bopeth 2019).

Mewn cyhoeddiad yn 2015, dangosodd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth sut yr oedd rhoi cyngor wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i iechyd a llesiant pobl (Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth 2015). Cafodd llesiant meddyliol cleientiaid ei fesur cyn ac ar ôl rhoi cyngor, ac roedd llesiant meddyliol y cleientiaid yn agosach at gyfartaledd y boblogaeth ar ôl rhoi'r cyngor hwnnw.

Ar y cyd â Chomisiwn Low, comisiynodd y Gynghrair Gwasanaethau Cynghori adolygiad o'r dystiolaeth a edrychai ar sut yr oedd gwasanaethau cynghori'n cyfrannu at ganlyniadau iechyd (Parkinson a Buttrick 2015). Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2015, ac roedd yn ystyried canfyddiadau 140 o astudiaethau ymchwil, gan gynnwys 58 a edrychai ar wasanaethau cynghori integredig yn ymwneud ag iechyd a llesiant.

Neges glir yn nhyb yr awduron oedd bod rhoi cyngor am les mewn lleoliadau gofal iechyd

"Mae rhoi cyngor am les mewn lleoliadau gofal iechyd yn arwain at wella iechyd a llesiant unigolion ac at lai o alw am wasanaethau iechyd"

Cyfieithiad o ddyfyniad o Parkinson A, Buttrick J. The Role of Advice Services in Health Outcomes. Evidence Review and Mapping Study. Y Gynghrair Gwasanaethau Cynghori / Comisiwn Low, t9

¹ ffigurau ymholiadau wedi'u tynnu o'r tabl 'issues by month', yn ôl categori. Mae'n adlewyrchu'r pynciau y rhoddodd Cyngor ar Bopeth sylw iddynt wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy sgwrs ar y we.

yn arwain at wella iechyd a llesiant unigolion ac at lai o alw am wasanaethau iechyd. At hynny, canfu'r awduron y gallai rhoi cyngor am les mewn lleoliadau gofal sylfaenol olygu bod meddygon teulu'n treulio llai o amser yn trafod materion o'r fath – yr amcangyfrif yw y gallai arbed 15% o'u hamser. Mae hyn hefyd yn arwain at lai o bresgripsiynau amlroddadwy ac apwyntiadau niferus gan yr un bobl (Parkinson a Buttrick 2015, t.9). Mae'r adroddiad yn edrych ar astudiaethau achos o bob rhan o Loegr, gan gyfeirio at enghreifftiau o Sheffield. Mae'n datgan y gallai rhoi cyngor am ddyledion helpu pobl rhag gorfod cael triniaeth iechyd meddwl, ynghyd â gwella canlyniadau iechyd i gleifion presennol (Parkinson a Buttrick 2015, t.10).

Yn eu hadolygiad systematig yn 2006 o gyngor am hawliau lles a roddwyd mewn lleoliadau gofal iechyd, canfu Adams et al. fod y cyngor hwnnw wedi cael ei roi mewn lleoliadau gofal sylfaenol mewn dros 57% o'r astudiaethau yr edrychwyd arnynt. Mewn llawer o'r astudiaethau, canfu'r awduron fod effaith y cyngor a roddwyd am iechyd yn cael ei mesur drwy gymharu'r newidiadau rhwng y data llinell sylfaen a'r data dilynol, gan ddefnyddio dulliau mesur canlyniadau cydnabyddedig megis Ffurflen Fer 36 neu Raddfa Gorbryder ac Iselder Ysbyty (HADS), i roi dwy enghraifft. Gwelwyd canlyniadau cadarnhaol, a oedd yn ystadegol arwyddocaol, mewn perthynas ag iechyd meddwl. Ymhlith y canfyddiadau ansoddol a welwyd yn yr astudiaethau a adolygwyd roedd: pobl yn gwario mwy ar fwydydd iachach; pobl yn osgoi mynd i ddyled; a phobl mewn gwell sefyllfa o ran biliau'r cartref. Serch hynny, cyfeiriodd meddygon teulu at effeithiau negyddol, gan gynnwys pryderon y gallai'r manteision i iechyd sy'n deillio o roi mwy o gefnogaeth i bobl gyda'u lles fod yn rhai dros dro yn unig, a hynny yn sgil cyflyrau iechyd hirdymor na ellir eu gwella. Mewn rhai o'r astudiaethau hyn, roedd maint y samplau'n fach a'r cyfnod dilynol yn fyr – o bosibl yn rhy fyr i ganfod newidiadau yn iechyd pobl ar ôl i'w hamgylchiadau ariannol newid (Adams et al. 2006).

Asesodd Allmark et al. fanteision iechyd gwasanaethau cynghori, gan roi model ar gyfer y llwybr achosol rhwng ymyriadau lles a gwelliannau i iechyd a llesiant pobl. Mae eu model yn cyfeirio at dystiolaeth dda o ganlyniadau iechyd gan gynnwys llai o straen/gorbryder a gwell amgylchedd yn y cartref, gyda thystiolaeth ganolraddol yn dangos gwell deiet, gostyngiad mewn cyfraddau ysmegu a gwell perthnasau (Allmark et al. 2013).

Edrychodd Woodhead et al. ar y canlyniadau a ddeilliodd o roi cyngor am les wedi'i gyd-leoli mewn lleoliadau gofal iechyd yn ardal Gogledd Tafwys. Gwelodd yr awduron lai o anhwylderau meddyliol cyffredin (o'r Holiadur Iechyd Cyffredinol 12 eitem) a gwelliant mewn llesiant o ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddwl Byrrach Warwick a Chaeredin. Gwelwyd hyn ar ei amlycaf ymhlith cleientiaid benywaidd a'r rhai a o gefndir ethnig du (Woodhead et al. 2017).

Mae papur gan Farr a Cressey yn dangos effaith gymdeithasol rhoi cyngor yn ystod y broses o ddiwygio'r system les i bobl anabl (Farr a Cressey 2018). Astudiaeth oedd hon a gynhaliodd gyfweiliadau ansoddol â chleientiaid a oedd yn gofyn am gyngor am fudd-daliadau lles, pan oedd gan y rheini anabledau neu gyflyrau iechyd corfforol a meddyliol eraill.

O ran salwch meddwl, mae'r Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl wedi cynnal ymchwil sy'n edrych ar y cysylltiadau rhwng anawsterau ariannol ac iechyd meddwl (Y Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl 2019). Mae un o'i adroddiadau diweddar, a luniwyd gan Brifysgol Bryste, yn edrych ar bobl sy'n agored i niwed drwy lygaid cynghorwyr dyledion. Mae'r adroddiad yn dangos bod 3 o bob 4 cynghorydd wedi siarad â rhywun a ddywedodd iddynt gael meddyliau neu deimladau hunanladdol yn ystod y 12 mis diwethaf, ac nad oedd 4 o bob 10 unigolyn a oedd â phroblemau iechyd meddwl wedi datgelu eu cyflwr i'r cynghorydd dyledion pan oeddent yn cael cyngor. Canfu'r adroddiad hefyd nad oedd pobl yn barod i ddatgelu eu cyflwr iechyd meddwl gan nad oeddent yn teimlo y byddai'n gwneud gwahaniaeth i'w sefyllfa (Y Ganolfan Ymchwil Cyllid Personol, Prifysgol Bryste 2018).

Mae buddsoddi cyfanswm blynyddol o £150 miliwn i £200 miliwn mewn cyngor am ddyledion yn arwain at adenillion o £445 miliwn i £960 miliwn i economi'r DU.

Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ac Europe Economics 2018. The Economic Impact of Debt Advice. Summary.

Am bob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau cyngor am les mewn lleoliadau gofal iechyd, mae'r cleientiaid sy'n cael cyngor yn ennill £15.

Ffynhonnell: Woodhead, C. et al. 2017. Impact of co-located welfare advice in healthcare settings: prospective quasi-experimental controlled study.

3.2 Beth yw effeithiau gwasanaethau cynghori ar yr economi?

Mewn ymchwil a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn 2018 ar yr effaith y mae rhoi cyngor ar ddyledion yn ei chael ar gymdeithas, amcangyfrifwyd bod cyfanswm y buddsoddiad mewn rhoi cyngor ar ddyledion yn £150 miliwn i £200 miliwn bob blwyddyn, a chanfuwyd bod yr adenillion i economi'r DU rhwng £445 miliwn a £960 miliwn (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ac Europe Economics 2018b). Mae'r adroddiad yn dweud bod rhoi cyngor ar ddyledion yn cael effaith uniongyrchol a buddiol ar iechyd meddwl, gydag effeithiau penodol ar iechyd yn cael eu crybwyll. Serch hynny, mae'r awduron yn cydnabod y byddai angen rhagor o ymchwil gyda maint sampl mwy er

mwyn dangos yn fwy grymus a oes 'gwir effaith' ar iechyd (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ac Europe Economics 2018a).

O ran llesiant economaidd unigolion, cyfeiriodd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth at astudiaeth achos o Swydd Derby, lle roedd 94 o blith y 102 o feddygfeydd yn darparu cymorthfeydd cyngor, gyda chefnogaeth comisiynwyr lleol iechyd y cyhoedd. Dangoswyd bod hyn yn gost-effeithiol i gleientiaid, gyda phob £1 a fuddsoddwyd yn y gwasanaeth yn arwain at £12 o incwm ychwanegol i gleientiaid a gwerth £8 o ddyled cleientiaid wedi'i haildrafod neu'i haildrefnu (Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth 2015). Yn fwy diweddar, canfu Woodhead et al. fod y rhai a gafodd gyngor wedi elwa o £15 y pen am bob £1 a fuddsoddwyd yn y gwasanaeth (Woodhead et al. 2017).

Yn ôl adolygiad systematig Adams et al. o effaith cyngor am hawliau lles a roddir mewn lleoliadau gofal iechyd, roedd data ynghylch canlyniadau ariannol i'w cael mewn 28 o astudiaethau. Yn yr astudiaethau hyn, canfuwyd tystiolaeth fod y cyngor a roddir mewn lleoliadau gofal iechyd yn arwain at fanteision ariannol buddiol i gleientiaid. Dyfynnwyd data o astudiaethau a chanddynt ddata ariannol llawn, a'r rheini'n dangos bod cymedr y budd yn £194 mewn cyfandaliad ac yn £832 y flwyddyn mewn buddion cylchol i bob cleient yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cael cyngor. Mae'r awduron yn pwysleisio, serch hynny, na ellir ystyried hwn yn amcangyfrif manwl ym mhob achos, gan fod y dulliau o adrodd ar y canlyniadau ariannol yn wahanol mewn astudiaethau eraill (Adams et al. 2006).

3.3 Sut y gallwn wella canlyniadau yn y maes hwn?

Gallwn wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y canlyniadau iechyd sy'n deillio o wasanaethau cynghori drwy fesur yr effeithiau ar iechyd mewn ffordd effeithiol. Canfu Adams et al. mai prin oedd y dystiolaeth bod y cyngor am hawliau lles a roddir mewn lleoliadau gofal iechyd wedi arwain at fanteision iechyd neu fanteision cymdeithasol mesuradwy. Er hynny, roeddent yn credu ei bod yn debygol bod hyn oherwydd diffyg tystiolaeth o ansawdd da, yn hytrach nag o ganlyniad i dystiolaeth o ddifffyg effaith (Adams et al. 2006). Dyma ddangos pwysigrwydd monitro a gwerthuso gwasanaethau o'r fath am gyfnod estynedig. Mae Forster et al. yn darparu protocol gwerthuso realistig, wedi'i ddylunio i asesu sut, pam, i bwy ac ym mha amgylchiadau y mae gwasanaethau'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn effeithiol wrth wella iechyd (Forster et al. 2016). Gellid addasu'r protocol hwn i'w ddefnyddio wrth edrych ar fathau eraill o wasanaethau cynghori, a dylai unrhyw un sy'n ceisio gwerthuso effaith gwasanaethau cynghori ar iechyd ei ddefnyddio'n fan cychwyn.

Mae Woodhead et al. yn datgan bod rhoi cyngor ar les, a hwnnw wedi'i gyd-leoli, yn gwella iechyd a llesiant meddyliol yn y tymor byr, yn lleihau straen ariannol, ac yn creu adenillion ariannol sylweddol (Woodhead et al. 2017).

Yn yr un modd, gallwn ddechrau gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer canlyniadau ariannol gwasanaethau cynghori a ddarperir mewn lleoliadau gofal iechyd drwy fesur yr effeithiau ariannol ar gleientiaid yn effeithiol. Gall dulliau dadansoddi cost a budd fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth, gan fesur costau cyflwyno gwasanaeth o'r fath ochr yn ochr â'r 'buddion' i unigolion a'r boblogaeth, fel y gwelir yn yr enghraifft o Swydd Derby a grybwyllir yn adran 3.2. o'r papur hwn.

3.4 Sut y gallai gwella'r cysylltiad rhwng gwasanaethau cynghori ac iechyd helpu'r economi?

Mae astudiaethau wedi dangos bod unigolion yn debygol o elwa'n ariannol yn ogystal â chael canlyniadau iechyd gwell pan ddarperir gwasanaethau cynghori (Adams et al. 2006; Burrows et al. 2011; Woodhead et al. 2017; Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ac Europe Economics 2018b). Ymhlith y gwelliannau a gaiff sylw yn yr astudiaethau hyn mae gallu cleientiaid i reoli dyledion yn fwy effeithiol, i fod yn fwy cynhyrchiol yn eu gwaith, ac i ddatrys problemau fel defnyddwyr. Fel y crybwyllwyd yn adran 3.3, canfu Woodhead et al.

fod pobl a gafodd gyngor wedi cael £15 y pen am bob £1 a fuddsoddodd y cyllidwr (Woodhead et al. 2017). Canfu Adams et al. rywfaint o dystiolaeth bod cyngor am hawliau lles a roddir mewn lleoliadau gofal ieched yn arwain at fanteision ariannol, ond roedd yn anodd asesu hyn yn systematig oherwydd y dulliau gwahanol a ddefnyddiwyd i fonitro canlyniadau ariannol. Canfu'r awduron fwy o dystiolaeth a ddangosai fod statws ariannol cleientiaid wedi gwella na thystiolaeth a oedd yn dangos bod eu hieched wedi gwella (Adams et al. 2006).

O ran yr economi ehangach, dangosodd ymchwil gan Europe Economics i'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol fod rhoi cyngor am ddyledion yn cael effaith gadarnhaol ar gredydwr drwy eu helpu i adennill dyledion problematig yn gynt. Mae'r ymchwil yn amcangyfrif bod credydwr ar eu hennill o rhwng £125 miliwn a £237 miliwn bob blwyddyn yn sgil hyn, er bod yr amcangyfrif bras hwn yn cynnwys rhagdybiaethau yn sgil data cyfyngedig (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ac Europe Economics 2018b, t.2). Ar y cyd â'r potensial i leihau gwariant ar ofal ieched, gwella cynhyrchiant a lleihau'r risg y bydd cleientiaid yn syrthio i batrwm o fynd i ddyled, mae'r ymchwilwyr yn amcangyfrif bod cyfanswm uniongyrchol ac anuniongyrchol y manteision o roi cyngor ar ddyledion yn werth rhwng £445 miliwn a £960 miliwn bob blwyddyn ledled y DU, a rhwng £22 miliwn a £48 miliwn yng Nghymru².

3.5 Bylchau yn y Dystiolaeth

Ceir diffyg ymchwil empirig a hydredol ynghylch y cysylltiadau rhwng cael cyngor a chanlyniadau ieched. Prin oedd y dystiolaeth a welodd Adams et al. o'r manteision mesuradwy i ieched yn sgil y cyngor am hawliau lles a roddwyd mewn lleoliadau gofal ieched, ond credent y gallai hyn fod yn sgil diffyg tystiolaeth (Adams et al. 2006). I ddadlau'r achos dros fuddsoddi ymhellach neu barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cynghori mewn lleoliadau ieched, bydd yn hanfodol gwahaniaethu rhwng y gwelliannau sy'n cael eu harsylwi a'r rhai ymddangosiadol, a hynny o ran statws ariannol a statws ieched cleientiaid ill dau. Gallai protocolau o astudiaethau sy'n bodoli'n barod helpu ymchwilwyr y dyfodol yn hyn o beth (Burrows et al. 2011; Forster et al. 2016).

£445-960 miliwn

Yr amcangyfrif o gyfanswm buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol rhoi cyngor ar ddyledion bob blwyddyn drwy'r DU.

Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ac Europe Economics 2018. The Economic Impact of Debt Advice. Summary.

² Wedi'i amcangyfrif o ddata'r DU fesul pen o'r boblogaeth heb ei addasu

4 Casgliad

Ystyriaethau Polisi

- Gallai gwella'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau cynghori gyfrannu at lai o ganlyniadau iechyd negyddol. Gallai darparu gwasanaethau cynghori mewn lleoliadau gofal iechyd – yn enwedig ynghylch dyledion, cyllid personol, tai a chyflogaeth – fod yn fuddiol.
- Dylai unrhyw Strategaethau Gwybodaeth a Chyngor a ddatblygir yn genedlaethol neu'n lleol ystyried ymgysylltu a chydweithio â darparwyr gofal iechyd lleol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau bod rhoi cyngor yn arwain at y manteision mwyaf posibl i iechyd. Dylai hyn gynnwys dulliau o fesur canlyniadau a fframweithiau gwerthuso ar y cyd.

Syniadau ar gyfer Ymchwil Pellach

- Fel y dengys ymchwil y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, er bod cysylltiadau cadarnhaol wedi'u gweld rhwng rhoi cyngor ar ddyledion ac iechyd meddwl, **mae angen rhagor o dystiolaeth empirig a hydredol ynghylch yr effaith y mae rhoi cyngor ar ddyledion yn ei chael ar iechyd, a hynny gyda maint sampl mawr.** Mae Forster et al. yn darparu protocol gwerthuso a allai fod yn addas ar gyfer unrhyw astudiaeth yn y dyfodol (Forster et al. 2016), a gallai astudiaeth ansoddol o'r cyngor a roddir i ddinasyddion mewn gofal sylfaenol amlygu gwersi ar gyfer cynnal astudiaeth ansoddol o'r pwnc hwn (Burrows et al. 2011).
- Heblaw am gyngor ar ddyledion, prin yw'r ymchwil ar yr effaith y mae cyngor yn ei gael ar iechyd – dylai ymchwilwyr edrych ar effaith mathau eraill o gyngor am les cymdeithasol ar iechyd, fel cyngor am faterion tai, mewnfudo a lloches, a hawliau cyflogaeth (gweler y rhestr o'r pynciau cynghori gan Advice UK yn Adran 2 y papur hwn).
- Dylai Gwasanaethau Cynghori a gwasanaethau gofal iechyd edrych ar gyfleoedd i gynnal unrhyw ymchwil ar y cyd i ganlyniadau iechyd/effaith cyngor ar iechyd.

Negeseuon i'w cofio

- Gall gwasanaethau cynghori helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau gofal iechyd drwy gefnogi pobl sydd â phroblemau a allai fod yn effeithio ar eu llesiant meddyliol, ar eu perthnasau ac ar eu sefyllfa dai, i roi rhai enghreifftiau yn unig.
- Gall gwasanaethau cynghori gyfeirio unigolion at wasanaethau cyhoeddus eraill a allai roi cymorth – gallai hyn leihau'r baich ar ymarferwyr gofal sylfaenol, sef y rhai y bydd pobl yn aml yn troi atynt gyntaf. Gallai gwasanaethau gofal sylfaenol wneud mwy i hyrwyddo'r gwasanaethau cynghori lleol sydd ar gael yn eu hardal.
- Mae gwasanaethau cynghori'n rhoi cymorth gydag ystod eang o bynciau, ac felly mae ganddynt gyfraniad o bwys i'w wneud wrth wella iechyd yng nghyd-destun y ffactorau ehangach hynny sy'n effeithio ar iechyd pobl.
- Cymharol brin o hyd yw'r dystiolaeth am effeithiau darparu cyngor ar ganlyniadau iechyd a chanlyniadau ariannol uniongyrchol, ac i'r diben hwn, argymhellir yn gryf y dylid cynnal rhagor o waith ymchwil, yn enwedig yng nghyd-destun Cymru.

Cyfeiriadau

Adams, J. et al. 2006. A systematic review of the health, social and financial impacts of welfare rights advice delivered in healthcare settings. *BMC Public Health* 6(1), t. 81. doi: 10.1186/1471-2458-6-81.

AdviceUK 2018. What is Advice? Ar gael yn: <http://www.adviceuk.org.uk/looking-for-advice/what-is-advice/> [Fel ar: 20 Ionawr 2020].

Allmark, P. et al. 2013. Assessing the health benefits of advice services: using research evidence and logic model methods to explore complex pathways: Assessing the health benefits of advice services. *Health & Social Care in the Community* 21(1), tt. 59–68. doi: 10.1111/j.1365-2524.2012.01087.x.

Burrows, J. et al. 2011. Citizens advice in primary care: A qualitative study of the views and experiences of service users and staff. *Public Health* 125(10), tt. 704–710. doi: 10.1016/j.puhe.2011.07.002.

Collins English Dictionary 2018. Economy definition and meaning. Ar gael yn: <https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/economy> [Fel ar: 7 Tachwedd 2018].

Cyngor ar Bopeth 2019. *Advice Trends - December 2019*. Llundain: Cyngor ar Bopeth. Ar gael yn: <https://public.tableau.com/profile/citizensadvice#!/vizhome/AdviceTrendsDecember2019/Cover> [Fel ar: 20 Ionawr 2020].

Farr, M. a Cressey, P. 2018. The social impact of advice during disability welfare reform: from social return on investment to evidencing public value through realism and complexity. *Public Management Review* 0(0), tt. 1–26. doi: 10.1080/14719037.2018.1473474.

Forster, N. et al. 2016. Exposing the impact of Citizens Advice Bureau services on health: a realist evaluation protocol. *BMJ Open* 6(1), p. e009887. doi: 10.1136/bmjopen-2015-009887.

Parkinson, A. a Buttrick, J. 2015. *The Role of Advice Services in Health Outcomes. Evidence Review and Mapping Study*. Y Gynghrair Gwasanaethau Cynghori / Comisiwn Low. Ar gael yn: https://www.lowcommission.org.uk/dyn/1435582011755/ASA-report_Web.pdf [Fel ar: 26 Hydref 2018].

Sefydliad Iechyd y Byd [dim dyddiad]. Constitution of WHO: principles. Ar gael yn: <http://www.who.int/about/mission/en/> [Fel ar: 11 Hydref 2018].

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth 2015. Prescribing advice. A pathway to health. Ar gael yn: https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Migrated_Documents/corporate/prescribing-advice-leaflet-web-final.pdf [Fel ar 20 Ionawr 2020].

Y Ganolfan Ymchwil Cyllid Personol, Prifysgol Bryste 2018. *Vulnerability: the experience of debt advisers*. Llundain: Y Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl. Ar gael yn: <https://www.moneyandmentalhealth.org/wp-content/uploads/2018/11/Vulnerability-the-experience-of-debt-advisers.pdf> [Fel ar: 20 Ionawr 2020].

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ac Europe Economics 2018a. The economic impact of debt advice on health. Available at: https://masassets.blob.core.windows.net/cms/files/000/000/891/original/Economic_Impact_of_Debt_Advice_-_health.pdf [Fel ar: 20 Ionawr 2020].

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ac Europe Economics 2018b. *The Economic Impact of Debt Advice. Summary*. Llundain: Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Ar gael yn: https://masassets.blob.core.windows.net/cms/files/000/000/899/original/Economic_Impact_of_Debt_Advice_-_Summary.pdf [Fel ar: 20 Ionawr 2020].

Y Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl 2019. Money and Mental Health Policy Institute. Ar gael yn: <https://www.moneyandmentalhealth.org/> [Fel ar: 20 Ionawr 2020].

Woodhead, C. et al. 2017. Impact of co-located welfare advice in healthcare settings: prospective quasi-experimental controlled study. *The British Journal of Psychiatry* 211(6), tud. 388–395. doi: 10.1192/bjp.bp.117.202713.

Delwedd Clawr © shutterstock.com/ALPA PROD